Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 127/2025

Dyddiad cyhoeddi: 24/03/2026

# Gwerthusiad ffurfiannol o'r Cwricwlwm i Gymru: arolwg o ddysgwyr a'u rhieni/gofalwyr - atodiadau technegol

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83745-280-4

Gwerthusiad ffurfiannol o'r Cwricwlwm i Gymru: arolwg o ddysgwyr a'u rhieni/gofalwyr - atodiadau technegol

Awduron: Gillian Parkinson a Ben Tylden-Smith (AlphaPlus), Hefin Thomas a Joanne Davis (Arad Research), Yr Athro Cysylltiol Claire Sinnema (Prifysgol Auckland)

Parkinson, G; Tylden-Smith, B; Thomas, H; Davis, J; Sinnema, C. (2025). Gwerthusiad ffurfiannol o'r Cwricwlwm i Gymru: arolwg o ddysgwyr a'u rhieni/gofalwyr. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif Adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 127/2026.

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-ffurfiannol-y-cwricwlwm-i-gymru-arolwg-o-ddysgwyr-eu-rhieni-gofalwyr

Safbwyntiau'r ymchwilydd sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Cangen Ymchwil Ysgolion
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth Gwasanaethau
Gwybodaeth a Dadansoddi
Lywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: curriculum.research@gov.wales

## Tabl cynnwys

Rhestr o dablau....................2

Rhestr o dermau....................3

Atodiad A: Holiadur yr arolwg....................5

Atodiad B: Atodiad technegol....................24

Atodiad C: Mapio Ffactorau....................31

Atodiad D: Gwybodaeth dechnegol ar FA ac SEM a dadansoddiad ychwanegol....................36

Atodiad E: Tablau atodol ar gyfer y modelau SEM a ddewiswyd....................46

## Rhestr o dablau

Tabl 6. Nifer y dysgwyr yn y sampl darged a'r boblogaeth yn seiliedig ar CYBLD 2024 ......26
Tabl 7. Nifer y rhieni yn y sampl darged a'r boblogaeth ......................................................29
Tabl 8. Ystadegau cryno o bob model SEM rhiant wedi'i ffitio ............................................43
Tabl 9. Amcangyfrifon model o'r model SEM rhieni a ddewiswyd (model 1)........................46
Tabl 10. Matrics cydamrywiad o'r model SEM rhieni a ddewiswyd (model 1): rhan 1 ..........46
Tabl 11. Matrics cydamrywiad o'r model SEM rhieni a ddewiswyd (model 1): rhan 2 ..........46
Tabl 12. Amcangyfrifon model o fodel SEM dysgwyr...........................................................46
Tabl 13. Matrics cydamrywiad o'r model SEM dysgwr ........................................................46

## Rhestr o ffigurau

Ffigur 23. Enghreifftiau o'r hysbysebion a ddefnyddiwyd i hyrwyddo'r arolwg ar y cyfryngau cymdeithasol ..........................................................................................................24
Ffigur 24. Enghraifft ddamcaniaethol o ddiagram model hafaliad strwythurol......................38
Ffigur 25. Model hafaliad strwythurol rhieni 2 a chyfernodau safonedig ..............................43
Ffigur 26. Model hafaliad strwythurol rhieni 3 a chyfernodau safonedig ..............................44
Ffigur 27. Model hafaliad strwythurol rhieni 4 a chyfernodau safonedig ..............................44

# Rhestr o dermau

**ADY**
Anghenion Dysgu Ychwanegol

**Bl**
Blwyddyn (Ysgol)

**Bl3+/Bl6+**
Ymatebwyr i'r arolwg o ddysgwyr ym Mlwyddyn 3/Blwyddyn 6 ac uwch

**CFI**
Mynegai ffit gymharol

**Dysgwr Anabl**
Mae hyn yn cyfeirio at unrhyw ddysgwr y mae ei rieni wedi ateb 'Ydw' mewn ymateb i'r cwestiwn yn yr arolwg a ofynnodd a oeddent yn ystyried bod gan eu plentyn anawsterau neu anableddau dysgu sy'n ei gwneud hi'n anoddach i'w plentyn ddysgu.

**FA**
Dadansoddi ffactorau

**CDU**
Cynllun Datblygu Unigol. Dogfen statudol a ddarperir i ddysgwyr yr ystyrir bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

**Dysgwyr MAT**
Dysgwyr mwy abl a thalentog

**Rhieni**
Fe'i defnyddir i ddisgrifio'r holl ymatebwyr sydd â chyfrifoldeb rhiant (h.y. rhieni a gofalwyr)

**CYBLD**
Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion

**RMSEA**
Cyfeiliorniad brasamcan isradd sgwâr cymedrig

**SEM**
Modelu hafaliadau strwythurol

**SRMR**
Gweddill isradd sgwâr cymedrig safonedig

**TLI**
Mynegai Tucker-Lewis

**Y Cwricwlwm**
Y Cwricwlwm i Gymru

# Atodiad A: Holiadur yr arolwg

## Cyflwyniad

Rydym yn casglu barn rhieni, gofalwyr a'u plant am eu profiadau o addysg yng Nghymru. Mae'r arolwg hwn yn rhan o werthusiad o'r Cwricwlwm i Gymru.  Mae cwmni ymchwil Arad yn cynnal yr arolwg ar ran Llywodraeth Cymru.

Mae'r arolwg wedi'i anelu at rieni a gofalwyr plant a phobl ifanc o Derbyn i Flwyddyn 9 (4-14 oed). Mae eich barn yn bwysig i hysbysu gwaith Llywodraeth Cymru.

Mae'r arolwg mewn 3 rhan:

**RHAN 1: Mae hwn ar gyfer rhieni a gofalwyr i'w gwblhau.** Dylai hyn gymryd 5-10 munud.

**RHAN 2: Mae hwn ar gyfer plentyn rhwng 4 a 14 oed i'w gwblhau.** Dylai hyn gymryd 5-10 munud.

Anogir rhieni a gofalwyr i helpu plant oedran cynradd (Derbyn - Blwyddyn 6) i gwblhau'r cwestiynau, tra gall plant oedran uwchradd (Blwyddyn 7-9) gwblhau'r cwestiynau'n annibynnol os dymunant. Os oes gennych fwy nag un plentyn 4-14 oed, penderfynwch pa blentyn yr hoffech ei gwblhau cyn i chi ddechrau'r holiadur. Mae rhai cwestiynau dewisol ar ddiwedd yr adran hon a fydd yn ein helpu i ddeall safbwyntiau a phrofiadau grwpiau gwahanol o'r Cwricwlwm i Gymru.

**RHAN 3: Mae hwn ar gyfer rhieni a gofalwyr i'w gwblhau.** Mae'n gofyn am rywfaint o wybodaeth amdanoch chi a dylai gymryd llai na 5 munud. Nid yw'r cwestiynau hyn yn ofynnol , ond byddem yn ddiolchgar iawn pe gallech eu cwblhau i'n helpu gyda'n gwaith dadansoddi.

Ar ddiwedd yr arolwg, gofynnir i chi a ydych am gael eich cynnwys mewn cystadleuaeth i ennill taleb siopa gwerth £100. I gael eich cynnwys yn y gystadleuaeth, bydd angen i chi gwblhau'r arolwg a nodi'ch enw, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn.

Bydd yr holl wybodaeth yn cael ei chadw'n ddiogel, a’i gwneud yn ddienw fel rhan o gyhoeddiadau. Mae mwy o wybodaeth am sut y byddwn yn defnyddio'ch data ar gael yma (i rieni/ofalwyr), yma (i blant a pobl ifanc) ac mae taflen wybodaeth i blant a phobl ifanc i gael yma

Darperir rhagor o wybodaeth neu esboniad o'r termau ar rai cwestiynau, a gellir eu gweld drwy hofran dros yr eicon canlynol ⓘ

Os oes angen unrhyw help arnoch i gwblhau'r arolwg hwn, neu os byddai'n well gennych ei gwblhau dros y ffôn, e-bostiwch arolwgcwricwlwm@ymchwil.arad.cymru

**RHAN 1 — Amdanoch chi**

1. Oes gennych chi blentyn/blant rhwng 4 a 14 oed? ⓘ

Oes

Nac oes

Amdanoch chi

Os oes gennych fwy nag un plentyn 4-14 oed, penderfynwch pa blentyn yr hoffech i gwblhau adran 'dysgwr' yr arolwg.

2. Ym mha flwyddyn ysgol mae'r plentyn a fydd yn cwblhau Rhan 2 o'r holiadur? ⓘ

Derbyn ⓘ

Blwyddyn 1 ⓘ

Blwyddyn 2 ⓘ

Blwyddyn 3 ⓘ

Blwyddyn 4 ⓘ

Blwyddyn 5 ⓘ

Blwyddyn 6 ⓘ

Blwyddyn 7 ⓘ

Blwyddyn 8 ⓘ

Blwyddyn 9 ⓘ

Dim un o'r uchod

Amdanoch chi

Atebwch y cwestiynau isod os gwelwch yn dda yn seiliedig ar y plentyn 4-14 oed fydd yn cwblhau ail hanner yr holiadur. Noder na fydd eich hymatebion yn cael eu rhannu gydag ysgol eich plentyn.

3. Ym mha awdurdod lleol mae ysgol eich plentyn?

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Cyngor Caerdydd

Cyngor Sir Caerfyrddin

Cyngor Sir Ceredigion

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cyngor Sir Ddinbych

Cyngor Sir y Fflint

Cyngor Gwynedd

Cyngor Sir Ynys Môn

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Cyngor Sir Fynwy

Cyngor Castell-nedd Port Talbot

Cyngor Dinas Casnewydd

Cyngor Sir Benfro

Cyngor Sir Powys

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Cyngor Dinas a Sir Abertawe

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Cyngor Bro Morgannwg

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Y tu allan i Gymru

4. Enw ysgol eich plentyn (teipiwch isod)

CWESTIYNAU 4-25 yn cynnwys rhestrau o ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion ar gyfer bob awdurdod lleol.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**

26. Ydych chi'n ystyried bod gan eich plentyn anawsterau dysgu neu anableddau sy'n ei gwneud hi'n anoddach i'ch plentyn ddysgu?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn siŵr

**ADY - manylion pellach**

27. Oes gan eich plentyn Gynllun Datblygu Unigol (CDU)?

Oes, mae gan fy mhlentyn CDU

Nac oes, nid oes gan fy mhlentyn CDU

Ddim yn siŵr

**Ymwybyddiaeth o newidiadau i'r cwricwlwm**

Atebwch y cwestiwn isod yn seiliedig ar eich ymwybyddiaeth gyffredinol o'r Cwricwlwm i Gymru fel rhiant neu ofalwr. Gall yr ymwybyddiaeth fod yn seiliedig ar fwy nag un plentyn neu ysgol.

28. Pa mor ymwybodol ydych chi o'r canlynol? (Ymwybodol iawn, Rhywfaint yn ymwybodol, Ddim yn ymwybodol)

Bod ysgolion bellach yn paratoi eu cwricwlwm eu hunain fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru ⓘ

Bod y Cwricwlwm i Gymru yn canolbwyntio ar y pedwar diben ar gyfer dysgwyr ⓘ

**Ymwybyddiaeth o newidiadau i'r cwricwlwm**

Atebwch y cwestiwn isod yn seiliedig ar eich ymwybyddiaeth gyffredinol fel rhiant neu ofalwr.

29. Rwy'n ymwybodol o'r Cwricwlwm i Gymru drwy... (ticiwch bob un sy'n berthnasol)

wybodaeth a ddarparwyd i mi gan ysgol(ion) fy mhlentyn/mhlant

wybodaeth a welais ar-lein (e.e. gwefan Llywodraeth Cymru a Hwb, gwefan newyddion, gwefan yr ysgol)

wybodaeth a welais ar y cyfryngau (e.e. radio/teledu, papur Newydd, cyfryngau cymdeithasol)

siarad gyda rhieni eraill

siarad gyda fy mhlentyn/mhlant

Arall (nodwch os gwelwch yn dda):

**Gwybodaeth am y Cwricwlwm i Gymru**

Atebwch y cwestiwn isod yn seiliedig ar eich gwybodaeth gyffredinol am y Cwricwlwm i Gymru fel rhiant neu ofalwr.

30. Gan feddwl am eich dealltwriaeth o'r Cwricwlwm i Gymru, a ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol? (Anghytuno'n gryf, Anghytuno, Ddim yn cytuno nac yn anghytuno, Cytuno, Cytuno'n gryf)

Rwy’n gwybod fod Cwricwlwm i Gymru yn canolbwyntio ar ddarparu addysg eang a chytbwys

Rwy'n gwybod bod Cwricwlwm i Gymru yn canolbwyntio ar wybodaeth a sgiliau

Rwy'n gwybod bod Cwricwlwm i Gymru yn canolbwyntio ar ddarparu profiadau bywyd go iawn ⓘ

**Cymryd rhan yn nylunio'r cwricwlwm**

Atebwch y cwestiwn isod yn seiliedig ar eich profiadau gydag ysgol y plentyn fydd yn cwblhau ail hanner yr arolwg hwn os gwelwch yn dda.

31. Yn ysgol eich plentyn, faint o gyfle ydych chi wedi'i gael i: (Dim o gwbl, Ychydig iawn, Ychydig, Llawer, Llawer iawn, Ddim yn siŵr)

rannu eich syniadau am beth mae eich plentyn yn dysgu yn yr ysgol

rannu eich syniadau am sut mae eich plentyn yn dysgu yn yr ysgol

roi adborth ar gwricwlwm yr ysgol ⓘ

glywed am sut y gallwch gefnogi dysgu eich plentyn

gyfrannu eich profiad neu arbenigedd i gefnogi'r addysgu a'r dysgu ⓘ

Defnyddiwch y gofod isod i ehangu ar eich ateb os dymunwch:

**Fy nghyfraniad i'r cwricwlwm**

Atebwch y cwestiwn isod yn seiliedig ar eich profiadau gydag ysgol y plentyn fydd yn cwblhau ail hanner yr arolwg hwn os gwelwch yn dda.

32. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol: (Anghytuno'n gryf, Anghytuno, Ddim yn cytuno nac yn anghytuno, Cytuno Cytuno'n gryf, Ddim yn siŵr / Ddim yn berthnasol)

Mae ysgol fy mhlentyn yn fy nghynnwys mewn trafodaethau am y cwricwlwm mewn ffordd sy'n...

gwneud i mi deimlo bod rhywun yn gwrando arnaf

gwneud i mi deimlo'n hyderus yn addysg fy mhlentyn

gwneud i mi deimlo'n frwdfrydig i gefnogi addysg fy mhlentyn

Cynnydd tuag at nodau'r Cwricwlwm i Gymru

Atebwch y cwestiwn isod yn seiliedig ar eich profiadau gydag ysgol y plentyn fydd yn cwblhau ail hanner yr arolwg hwn os gwelwch yn dda.

33. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol:

Rwy'n hyderus bod y cwricwlwm, yr addysgu a'r dysgu yn ysgol fy mhlentyn yn eu helpu i ddod yn... (Anghytuno'n gryf, Anghytuno, Ddim yn cytuno nac yn anghytuno, Cytuno, Cytuno'n gryf) uchelgeisiol a galluog

iach a hyderus

fentrus a chreadigol

egwyddorol a gwybodus

34. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol: (Anghytuno'n gryf, Anghytuno, Ddim yn cytuno nac yn anghytuno, Cytuno, Cytuno'n gryf)

Mae athrawon fy mhlentyn yn deall cefndir, gallu ac anghenion unigol fy mhlentyn

Mae athrawon fy mhlentyn yn darparu'r cymorth cywir i alluogi fy mhlentyn i wneud cynnydd

Mae addysg fy mhlentyn yn eu helpu i gyrraedd eu potensial llawn

Mae addysg fy mhlentyn yn diwallu eu anghenion ⓘ

Mae addysg fy mhlentyn yn cefnogi eu lles

**Hyder yng nghwricwlwm yr ysgol**

Atebwch y cwestiwn isod yn seiliedig ar eich profiadau gydag ysgol y plentyn fydd yn cwblhau ail hanner yr arolwg hwn os gwelwch yn dda.

35. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol: (Anghytuno'n gryf, Anghytuno, Ddim yn cytuno nac yn anghytuno, Cytuno, Cytuno'n gryf, Ddim yn siŵr)

Rwy'n hyderus bod yr hyn y mae fy mhlentyn yn dysgu yn yr ysgol...

...yn eu helpu i baratoi ar gyfer eu camau nesaf yn eu haddysg

...yn eu helpu i baratoi ar gyfer gwaith ac ar gyfer bywyd yn fwy cyffredinol

**Bodlonrwydd gyda'r ysgol**

Atebwch y cwestiwn isod yn seiliedig ar eich profiadau gydag ysgol y plentyn fydd yn cwblhau ail hanner yr arolwg hwn os gwelwch yn dda.

36. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol? (Anghytuno'n gryf, Anghytuno, Ddim yn cytuno nac yn anghytuno, Cytuno, Cytuno'n gryf, Ddim yn siŵr)

Mae'r ysgol yn dda am rannu gwybodaeth â mi

Gallaf ymddiried yn yr athrawon a'r staff yn ysgol fy mhlentyn

Mae athrawon a staff ysgol fy mhlentyn yn barod i helpu

Mae athrawon a staff yr ysgol yn gwrando arnaf os oes gen i bryderon

Mae athrawon a staff yr ysgol yn cymryd gofal da o fy mhlentyn

Mae gan fy mhlentyn fynediad at gymorth ychwanegol yn yr ysgol os oes angen

Gallaf gael gafael ar athro/athrawon fy mhlentyn yn hawdd

Rwy'n fodlon ag ysgol fy mhlentyn

**Bodlonrwydd gyda gwybodaeth am gynnydd — Derbyn–Blwyddyn 6**

Atebwch y cwestiwn isod yn seiliedig ar eich profiadau gydag ysgol y plentyn fydd yn cwblhau ail hanner yr arolwg hwn os gwelwch yn dda.

37. Pa mor fodlon ydych chi â'r wybodaeth yr ydych yn derbyn gan ysgol eich plentyn am... (Anfodlon iawn, Anfodlon, Ddim yn fodlon nac yn anfodlon, Bodlon, Bodlon iawn)

gynnydd cyffredinol eich plentyn

gynnydd eich plentyn mewn llythrennedd

gynnydd eich plentyn mewn rhifedd

**Bodlonrwydd gyda gwybodaeth am gynnydd — Blynyddoedd 7–9**

Atebwch y cwestiwn isod yn seiliedig ar eich profiadau gydag ysgol y plentyn fydd yn cwblhau ail hanner yr arolwg hwn os gwelwch yn dda.

38. Pa mor fodlon ydych chi â'r wybodaeth yr ydych yn derbyn gan ysgol eich plentyn am... (Anfodlon iawn, Anfodlon, Ddim yn fodlon nac yn anfodlon, Bodlon, Bodlon iawn)

gynnydd cyffredinol eich plentyn

gynnydd eich plentyn yn Saesneg

gynnydd eich plentyn yn y Gymraeg

gynnydd eich plentyn mewn mathemateg a rhifedd

**Gwybodaeth am gynnydd fy mhlentyn**

39. Rwy'n fodlon â... (Anghytuno'n gryf, Anghytuno, Ddim yn cytuno nac yn anghytuno, Cytuno, Cytuno'n gryf)

sut yr wyf yn derbyn gwybodaeth am gynnydd fy mhlentyn ⓘ

pa mor aml rwy'n derbyn gwybodaeth am gynnydd fy mhlentyn

**Safbwyntiau ar y Cwricwlwm i Gymru**

40. Ar y cyfan, pa mor gefnogol ydych chi o'r Cwricwlwm i Gymru?

Ddim yn gefnogol o gwbl

Ychydig yn anghefnogol

Ddim yn gefnogol nac yn anghefnogol

Ychydig yn gefnogol

Cefnogol iawn

A allwch egluro'ch ymateb ymhellach?

Hyder cyffredinol yn addysg eich plentyn

41. Ar y cyfan, pa mor hyderus ydych chi'n teimlo am safon addysg eich plentyn?

Ddim yn hyderus o gwbl

Ddim yn hyderus iawn

Ychydig yn hyderus

Hyderus iawn

Yn gwbl hyderus

Cliciwch 'Tudalen nesaf' i gyflwyno eich ymatebion (fel rhiant/gofalwr) ar gyfer eu dadansoddi a symud ymlaen at y cwestiynau dewisol i rieni/gofalwyr ac yna'r cwestiynau i ddysgwyr.

**Cwestiynau Dewisol: Rhieni a Gofalwyr**

Mae'r cwestiynau canlynol yn ddewisol. Cwblhewch unrhyw rai o'r cwestiynau yr hoffech, neu gallwch symud ymlaen i Ran 2 o'r holiadur ar gyfer eich plentyn.

42. Yr un agwedd o gwricwlwm yr ysgol yr hoffwn wybod mwy amdano yw...

43. Yr un rhan o gwricwlwm yr ysgol a fydd o'r budd mwyaf i fy mhlentyn yw…

44. Y peth sy'n fy mhoeni fwyaf am gwricwlwm yr ysgol yw...

**RHAN 2 — Dysgwyr**

Mae ail ran yr arolwg hwn i'ch plentyn i'w gwblhau, gyda'ch cefnogaeth chi fel rhiant neu ofalwr lle bo angen.

Anogir rhieni a gofalwyr i gefnogi plant oedran cynradd (Derbyn i Flwyddyn 6) i gwblhau'r cwestiynau.

Gall plant oedran ysgol uwchradd (Blynyddoedd 7—9) gwblhau'r cwestiynau'n annibynnol os dymunant.

Mae'n bosib y bydd rhieni a gofalwyr yn dymuno darllen y cwestiynau dewisol ar ddiwedd adran 2 cyn i'ch plentyn eu cwblhau.

**Barn gyffredinol ar yr ysgol — Derbyn–Blwyddyn 2**

45. Beth ydych chi'n ei feddwl o'r datganiadau canlynol? (☹ Nac ydw / Nac ydyn, 😐 Ddim yn siŵr, ☺ Ydw / Ydyn)

Rwy'n mwynhau mynd i'r ysgol

Rwy'n mwynhau be dwi'n ddysgu yn yr ysgol

Rwy'n cael yr holl help dwi'i angen yn yr ysgol

Rwy'n meddwl bod yr ysgol yn deg i bawb

Mae fy athrawon yn fy helpu i ddeall pan fyddai'n gwella wrth ddysgu

**Barn gyffredinol ar yr ysgol — Blwyddyn 3–6**

46. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?

(😖 Wir yn anghytuno, ☹ Anghytuno, 😕 Ddim yn cytuno nac anghytuno, ☺ Cytuno, 😀 Wir yn cytuno)

Rwy'n mwynhau mynd i'r ysgol

Rwy'n mwynhau be dwi'n ddysgu yn yr ysgol

Rwy'n teimlo galla'i fod yn fi fy hun yn yr ysgol

Rwy'n cael yr holl help dwi'i angen yn yr ysgol

Rwy'n meddwl bod yr ysgol yn deg i bawb

Mae fy athrawon yn fy helpu i ddeall pan fydda i wedi gwneud yn dda neu wedi symud ymlaen wrth ddysgu

**Barn gyffredinol ar yr ysgol — Blwyddyn 7–9**

47. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?

(😖 Wir yn anghytuno, ☹ Anghytuno, 😕 Ddim yn cytuno nac anghytuno, ☺ Cytuno, 😀 Wir yn cytuno)

Rwy'n mwynhau mynd i'r ysgol

Rwy'n mwynhau be dwi'n ddysgu yn yr ysgol

Rwy'n teimlo galla'i fod yn fi fy hun yn yr ysgol

Rwy'n cael yr holl help dwi'i angen yn yr ysgol

Rwy'n gallu gweld y cysylltiadau rhwng y gwahanol bynciau dwi'n dysgu amdanynt yn yr ysgol

Rwy'n meddwl bod yr ysgol yn deg i bawb

Mae fy athrawon yn fy helpu i ddeall pan fydda'i wedi gwneud yn dda neu wedi symud ymlaen wrth ddysgu

**Cymryd rhan mewn cynllunio'r cwricwlwm — Derbyn–Blwyddyn 2**

48. Beth ydych chi'n feddwl o'r datganiadau canlynol? (☹ Nac ydw / Nac ydyn, 😕 Ddim yn siŵr, ☺ Ydw / Ydyn)

Mae athrawon yn yr ysgol yn gwrando arna i

Rwy'n gallu dweud wrth athrawon os ydw i'n hoffi be dwi'n ddysgu amdano neu ddim

Cymryd rhan mewn cynllunio'r cwricwlwm — Blwyddyn 3 ac uwch

49. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol: ( Wir yn anghytuno, Anghytuno, Ddim yn cytuno nac anghytuno, Cytuno, Wir yn cytuno)

Mae athrawon yn yr ysgol yn gwrando arna i

Mae athrawon yn gofyn i mi beth hoffwn ddysgu amdano

Mae athrawon yn gofyn i mi sut hoffwn i ddysgu ⓘ

Rwy'n gallu dweud wrth athrawon os ydw i'n hoffi be dwi'n ddysgu amdano neu ddim

**Cynnydd tuag at y pedwar diben — Derbyn–Blwyddyn 2**

50. Mae'r ysgol yn fy helpu i... ( Nac ydy, Ddim yn siŵr, Ydy)

gredu yn fi fy hun a'r hyn rwy'n gallu gwneud

fod yn iachach

feddwl am syniadau newydd

fod yn fwy creadigol

fod y gorau y gallaf fod

ddeall a phoeni am bobl a’r byd ⓘ

**Defnyddio'r Gymraeg — Derbyn–Blwyddyn 2**

51. Beth ydych chi'n feddwl o'r datganiadau canlynol? ( Nac ydw, Ddim yn siŵr, Ydw)

Rwy'n teimlo'n hyderus yn defnyddio'r Gymraeg

Rwy'n defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth

**Cynnydd tuag at y pedwar diben — Blwyddyn 3–6**

52. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol? ( Wir yn anghytuno, Anghytuno, Ddim yn cytuno nac anghytuno, Cytuno, Wir yn cytuno)

Mae'r ysgol yn fy helpu i...

ddod yn uchelgeisiol

gredu yn fi fy hun a'r hyn y gallaf wneud

fod yn iach ac yn hyderus

feddwl am syniadau newydd

ddod o hyd i ffyrdd o ddatrys problemau

fod yn fwy creadigol

ddeall a phoeni am bobl a’r byd ⓘ

fod yn fwy ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd yn y byd

fod y gorau y gallaf fod

**Cynnydd tuag at y pedwar diben — Blwyddyn 7–9**

53. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol? (😣 Wir yn anghytuno, ☹ Anghytuno, 😐 Ddim yn cytuno nac anghytuno, ☺ Cytuno, 😀 Wir yn cytuno)

Mae'r ysgol yn fy helpu i...

ddod yn uchelgeisiol ac yn alluog

ddod yn iach ac yn hyderus

ddod yn fentrus ac yn greadigol ⓘ

ddod yn egwyddorol ac yn wybodus ⓘ

ddod o hyd i ffyrdd o ddatrys problemau

gyrraedd fy mhotensial llawn

**Defnyddio'r Gymraeg — Blwyddyn 3 ac uwch**

54. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol? (😣 Wir yn anghytuno, ☹ Anghytuno, 😐 Ddim yn cytuno nac anghytuno, ☺ Cytuno, 😀 Wir yn cytuno)

Rwy'n teimlo'n hyderus yn defnyddio fy sgiliau Cymraeg

Rwy'n defnyddio fy sgiliau Cymraeg tu allan i'r ystafell ddosbarth

**Bodlonrwydd gydag ysgol — Derbyn–Blwyddyn 2**

55. Gan feddwl am athrawon a staff eraill yn eich ysgol, beth ydych chi'n feddwl o'r datganiadau canlynol? ⓘ (☹ Nac ydw, 😐 Ddim yn siŵr, ☺ Ydw)

Mae athrawon a staff bob amser yn barod i helpu

Mae'n hawdd siarad ag athrawon a staff

Mae athrawon a staff wir yn gwrando ar blant

Mae athrawon a staff yn cymryd gofal da o blant

**Bodlonrwydd gydag ysgol — Blwyddyn 3 ac uwch**

56. Gan feddwl am athrawon a staff eraill yn eich ysgol, a ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol? ⓘ (😠 Wir yn anghytuno, ☹ Anghytuno, 😐 Ddim yn cytuno nac anghytuno, ☺ Cytuno, 😀 Wir yn cytuno)

Mae athrawon a staff bob amser yn barod i helpu

Mae'n hawdd siarad ag athrawon a staff

Mae athrawon a staff wir yn gwrando ar ddisgyblion

Mae athrawon a staff yn gofalu'n dda am blant

**Lles — Derbyn–Blwyddyn 2**

57. Beth ydych chi'n feddwl o'r datganiadau canlynol? (☹ Nac ydw, 😐 Ddim yn siŵr, ☺ Ydw)

Rwy'n meddwl bydd pethau da yn digwydd yn fy mywyd

Rwy'n teimlo fy mod i'n gallu gwneud rhai pethau'n dda

Rwy'n meddwl bod llawer o bobl yn poeni amdanaf ⓘ

Rwy'n meddwl bod llawer o bethau y gallaf fod yn falch ohonynt

Rwyf wedi bod mewn hwyliau da

Rwyf wedi bod yn dod ymlaen yn dda gyda phobl

**Lles — Blwyddyn 3 ac uwch**

58. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol? (😠 Wir yn anghytuno, ☹ Anghytuno, 😐 Ddim yn cytuno nac anghytuno, ☺ Cytuno, 😀 Wir yn cytuno)

Rwy'n meddwl bydd pethau da yn digwydd yn fy mywyd

Rwy'n teimlo fy mod i'n gallu gwneud rhai pethau'n dda

Rwy'n meddwl bod llawer o bobl yn poeni amdanaf (care about me)

Rwy'n meddwl bod llawer o bethau gallaf fod yn falch ohonynt

Rwyf wedi bod mewn hwyliau da

Rwyf wedi bod yn dod ymlaen yn dda gyda phobl

Cliciwch 'Tudalen nesaf' i gyflwyno eich ymatebion i'w dadansoddi fel rhan o'r gwerthusiad a symud ymlaen at y cwestiynau dewisol.

**CWESTIYNAU DEWISOL: Amdanoch chi — plant oedran cynradd**

Nodyn ar gyfer rhieni a gofalwyr: Mae'r dudalen hon yn gofyn am rywfaint o wybodaeth ddewisol amdanoch chi i'n helpu gyda'n dadansoddiad. Nid oes rhaid i chi ateb y cwestiynau hyn. Hoffai Llywodraeth Cymru allu cysylltu eich atebion arolwg dienw â gwybodaeth ddienw arall amdanoch sydd ar gael i Lywodraeth Cymru, y GIG neu sefydliadau cyhoeddus eraill. Er enghraifft: cofnodion eich meddyg teulu, ysbyty ac addysg.

Dim ond i ganiatáu creu cysylltiadau anhysbys y mae angen y wybodaeth hon arnom ac ni fydd modd adnabod eich gwybodaeth unwaith y mae yn y bas data anhysbys.

Bydd cysylltu eich atebion arolwg yn rhoi cyfoeth o wybodaeth ychwanegol i ymchwilwyr cymeradwy, Llywodraeth Cymru, a sefydliadau cyhoeddus eraill, fel y gallant gael darlun cliriach o faterion yng Nghymru a sut i'w taclo.

59. Nodwch y manylion canlynol amdanoch chi (plentyn a gwblhaodd yr holiadur)

Eich enw llawn

Dyddiad geni

60. Ydych chi'n...

- Fachgen
- Ferch
- Dydw i ddim eisiau ateb
- Mae'n well gen i hunan-ddisgrifio (gwnewch hynny isod):

**CWESTIYNAU DEWISOL: Amdanoch chi — plant oedran uwchradd**

Mae'r dudalen hon yn gofyn am wybodaeth ddewisol amdanoch i'n helpu i ddeall safbwyntiau a phrofiadau grwpiau gwahanol o'r Cwricwlwm i Gymru. Nid oes rhaid i chi ateb y cwestiynau hyn.

Hoffai Llywodraeth Cymru allu cysylltu eich atebion arolwg anhysbys (heb eich adnabod wrth eich enw) â gwybodaeth ddienw amdanoch sydd ar gael i Lywodraeth Cymru, y GIG neu sefydliadau cyhoeddus eraill. Er enghraifft, cofnodion eich meddyg teulu, ysbyty ac addysg.

Bydd cysylltu eich atebion arolwg dienw yn rhoi cyfoeth o wybodaeth ychwanegol i ymchwilwyr, Llywodraeth Cymru, a sefydliadau cyhoeddus eraill, fel y gallant gael darlun cliriach o faterion yng Nghymru a sut i'w taclo.

61. Nodwch y manylion canlynol amdanoch chi (plentyn a gwblhaodd yr holiadur)

Eich enw llawn

Dyddiad geni

62. Ydych chi'n fachgen neu'n ferch?

- Bachgen
- Merch
- Ni fyddai'r un opsiwn yn fy nisgrifio
- Dydw i ddim eisiau ateb
- Rwy'n adnabod fy hun fel:

63. A gawsoch eich disgrifio fel gwryw neu fenyw adeg eich geni?

- Gwryw
- Benyw
- Dydw i ddim eisiau ateb

**RHAN 3: Gwybodaeth am y rhiant/gofalwr a gwblhaodd yr arolwg hwn**

Mae rhan olaf yr holiadur i rieni/ofalwyr ei gwblhau.

Hoffai Llywodraeth Cymru allu cysylltu eich atebion arolwg dienw â gwybodaeth ddienw arall amdanoch sydd ar gael i Lywodraeth Cymru, y GIG neu sefydliadau cyhoeddus eraill. Er enghraifft: cofnodion eich meddyg teulu, ysbyty ac addysg.

Bydd cysylltu eich atebion arolwg yn rhoi cyfoeth o wybodaeth ychwanegol i ymchwilwyr cymeradwy, Llywodraeth Cymru, a sefydliadau cyhoeddus eraill, fel y gallant gael darlun cliriach o faterion yng Nghymru a sut i'w taclo.

64. Nodwch y manylion canlynol am y rhiant neu'r gofalwr a gwblhaodd yr holiadur

Enw'r rhiant neu'r gofalwr

Dyddiad geni

Cod post

65. Nodwch yr iaith/ieithoedd a siaredir gartref (ticiwch bopeth sy'n berthnasol)

Saesneg

Cymraeg

Iaith/ieithoedd eraill (nodwch):

66. Beth yw eich rhyw?

Benyw

Gwryw

67. Ydy'r rhywedd rydych chi'n uniaethu ag ef yr un peth â'r rhyw a gofrestrwyd pan gawsoch chi eich geni? (Mae'r cwestiwn hwn yn wirfoddol)

Ydy

Nac ydy

Nodwch eich hunaniaeth rhywedd:

**Ethnigrwydd rhiant neu ofalwr**

68. Beth yw eich grŵp ethnig?

Gwyn - Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddelig Gogledd Iwerddon neu Brydeinig

Gwyn - Gwyddelig

Gwyn - Sipsi neu Deithwyr Gwyddelig

Gwyn - Roma

Unrhyw gefndir Gwyn arall (ysgrifennwch isod)

Grwpiau ethnig cymysg neu aml-ethnig - Gwyn a Du Caribïaidd

Grwpiau ethnig cymysg neu aml-ethnig - Gwyn a Du Affricanaidd

Grwpiau ethnig cymysg neu aml-ethnig - Gwyn ac Asiaidd

Unrhyw gefndir cymysg neu aml-ethnig arall (nodwch isod)

Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig - Indiaidd

Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig - Pacistanaidd

Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig - Bangladeshaidd

Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig - Tsieineaidd

Unrhyw gefndir Asiaidd arall (nodwch isod)

Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd - Caribïaidd

Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd - cefndir Affricanaidd (ysgrifennwch yn isod)

Unrhyw gefndir Du, Du, Du Prydeinig neu Garibïaidd arall (ysgrifennwch isod)

Grŵp ethnig arall - Arabaidd

Unrhyw grŵp ethnig arall (nodwch isod)

Nodwch isod os oes angen:

**Ethnigrwydd y plentyn a gwblhaodd yr holiadur**

69. Beth yw grŵp ethnig y plentyn a gwblhaodd yr holiadur hwn?

Gwyn - Cymreig, Saesnig, Albanaidd, Gwyddelig Gogledd Iwerddon neu Brydeinig

Gwyn – Gwyddelig

Gwyn - Sipsi neu Deithwyr Gwyddelig

Gwyn – Roma

Unrhyw gefndir Gwyn arall (ysgrifennwch isod)

Grwpiau ethnig cymysg neu aml-ethnig - Gwyn a Du Caribïaidd

Grwpiau ethnig cymysg neu aml-ethnig - Gwyn a Du Affricanaidd

Grwpiau ethnig cymysg neu aml-ethnig - Gwyn ac Asiaidd

Unrhyw gefndir cymysg neu aml-ethnig arall (nodwch isod)

Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig – Indiaidd

Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig – Pacistanaidd

Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig – Bangladeshaidd

Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig – Tsieineaidd

Unrhyw gefndir Asiaidd arall (nodwch isod)

Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd - Caribïaidd

Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd - cefndir Affricanaidd (ysgrifennwch yn isod)

Unrhyw gefndir Du, Du, Du Prydeinig neu Garibïaidd arall (ysgrifennwch isod)

Grŵp ethnig arall – Arabaidd

Unrhyw grŵp ethnig arall (nodwch isod)

Nodwch isod os oes angen:

**Cymhwyster prydau ysgol am ddim**

70. Ydy eich plentyn yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim?

Ydy

Nac ydy

Ddim yn siŵr

**Grant Hanfodion Ysgol**

71. A ydych wedi derbyn cyllid drwy'r Grant Hanfodion Ysgol yn ystod y 12 mis diwethaf? ⓘ

Ydw

Nac ydw

Ddim yn siŵr

**Ymchwil bellach**

Hoffem allu ailgysylltu â chi ar gyfer rhagor o ymchwil yn ymwneud â gwerthusiad y Cwricwlwm i Gymru. Os ydych yn cydsynio i ni ailgysylltu â chi, nodwch 'Ydw' isod ac yn nodi eich manylion ar y dudalen nesaf.

72. A ydych yn hapus i ni ail gysylltu â chi er mwyn cymryd rhan mewn ymchwil bellach mewn perthynas â gwerthusiad y Cwricwlwm i Gymru?

Ydw, rwy'n hapus i chi ailgysylltu â mi mewn perthynas ag ymchwil pellach

Nac ydw, nid wyf yn hapus i chi ail-gysylltu â chi mewn perthynas ag ymchwil pellach

**Manylion cyswllt ar gyfer ymchwil pellach**

73. Nodwch eich manylion cyswllt

Enw

Cyfeiriad ebost

# Atodiad B: Atodiad technegol

Mae'r adran hon yn darparu gwybodaeth dechnegol ychwanegol sy'n ymwneud â'r arolwg.

## Dosbarthu'r arolwg

Dangosir enghreifftiau o'r hysbysebion a ddefnyddiwyd i hyrwyddo'r arolwg isod.

**Ffigur 1. Enghreifftiau o'r hysbysebion a ddefnyddiwyd i hyrwyddo'r arolwg ar y cyfryngau cymdeithasol**






Anfonwyd e-bost at sefydliadau rhanddeiliaid neu cysylltwyd â nhw drwy'r cyfryngau cymdeithasol a gofynnwyd iddynt hyrwyddo'r arolwg i'w rhwydweithiau. Roedd y rhain fel a ganlyn: Parent Voices in Wales, NYAS Cymru, Amser i Newid Cymru, Enabled2Parent, Women Connect First, EYST, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru, Gingerbread (Rhieni Sengl), TGP Cymru, Cymdeithas Iberia ac America Ladin yng Nghymru, Muslim Engagement and Development, Race Alliance Wales, Family Lives .

Dangosir manylion pellach isod am y fframwaith samplu a ddefnyddiwyd ar gyfer cynllunio dosbarthiad yr arolwg a monitro'r ymatebion.

.

**Tabl 1. Nifer y dysgwyr yn y sampl darged a'r boblogaeth yn seiliedig ar CYBLD 2024**

| Categorïau haenau | Is gategorïau haenau | Sampl darged o ddysgwyr | Poblogaeth y dysgwyr |
|---|---|---|---|
| **Y Sampl Gyffredinol** | **Cyfanswm** | **1,000** | **343,185** |
| Sector | Cynradd | 660 | 226,555 |
| Sector | Ysgolion bob oed (3-16/18) ac Uwchradd | 329 | 112,825 |
| Sector | Arbennig | 11 | 3,805 |
| **Sector** | **Cyfanswm** | **1,000** | **343,185** |
| Cyfrwng iaith (i) | Pob ysgol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog (ii) | 231 | 79,420 |
| Cyfrwng iaith (i) | Pob ysgol cyfrwng Saesneg (iii) | 757 | 259,925 |
| **Cyfrwng iaith (i)** | **Cyfanswm** | **988** | **339,345** |
| Grŵp blwyddyn | Dosbarth Derbyn - Blwyddyn 2 | 281 | 96,585 |
| Grŵp blwyddyn | Blynyddoedd 3-4 | 201 | 69,035 |
| Grŵp blwyddyn | Blynyddoedd 5-6 | 204 | 70,010 |
| Grŵp blwyddyn | Blynyddoedd 7 | 105 | 36,070 |
| Grŵp blwyddyn | Blynyddoedd 8 | 106 | 36,270 |
| Grŵp blwyddyn | Blynyddoedd 9 | 103 | 35,215 |
| **Grŵp blwyddyn** | **Cyfanswm** | **1,000** | **34,3185** |

| **Categorïau haenau** | **Is gategorïau haenau** | **Sampl darged o ddysgwyr** | **Poblogaeth y dysgwyr** |
|---|---|---|---|
| Cymwys i gael prydau ysgol am ddim (iv) | Cymwys i gael prydau ysgol am ddim | 216 | 73972 |
| Cymwys i gael prydau ysgol am ddim (iv) | Ddim yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim | 784 | 269,213 |
| **Cymwys i gael prydau ysgol am ddim (iv)** | **Cyfanswm** | **1,000** | **34,3185** |
| Dysgwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (v) | Dysgwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol | 145 | 49,645 |
| Dysgwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (v) | Nid o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol | 855 | 293,540 |
| **Dysgwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (v)** | **Cyfanswm** | **1,000** | **343,185** |
| Rhanbarth | Canol y de | 317 | 108,955 |
| Rhanbarth | Y canolbarth a’r gorllewin | 273 | 93,810 |
| Rhanbarth | Y gogledd | 212 | 72,925 |
| Rhanbarth | Y de-ddwyrain | 197 | 67,495 |
| **Rhanbarth** | **Cyfanswm** | **1,000** | **343,185** |

Nodyn: efallai na fydd cyfanswm y ffigurau'n cyfateb yn union oherwydd talgrynnu

(i) Nid yw ysgolion arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCDau) wedi’u categoreiddio yn ôl cyfrwng iaith

(ii) Yn cynnwys ysgolion sydd wedi'u categoreiddio mewn categorïau dwyieithog A, B ac C / dwy ffrwd / trosiannol. Yn seiliedig ar gategorïau a ddefnyddiwyd yn CYBLD 2023/24.

(iii) Yn cynnwys ysgolion sy'n cael eu categoreiddio fel ysgolion cyfrwng Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg.

(iv) Amcangyfrif o nifer y dysgwyr sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn seiliedig ar ganran yr holl ddysgwyr 5-15 oed oedd yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim (CYBLD 2023/24) a nifer y dysgwyr mewn grwpiau oedran Derbyn – Blwyddyn 9

(v) Amcangyfrif o nifer y dysgwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn seiliedig ar ganran yr holl ddysgwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol 5-15 oed (CYBLD 2023/24) a nifer y dysgwyr mewn grwpiau oedran Derbyn – Blwyddyn 9

(vi) Roedd 1,276 o ddysgwyr mewn UCDau naill ai wedi eu cofrestru mewn un lleoliad (1077) neu mwy nag un lleoliad (199) yn 2023/24 (Ffynhonnell: Cyfrifiad Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS). Os yr ydym yn defnyddio hyn fel ein poblogaeth yna mae hyn yn cynrychioli 0.3% o'r holl ddysgwyr. Gweler Disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol: Medi 2024 i Awst 2025.

**Tabl 2. Nifer y rhieni yn y sampl darged a'r boblogaeth**

| Categorïau haenau | Is gategorïau haenau | Sampl darged o rieni/gofalwyr | Poblogaeth o ddysgwyr |
|---|---|---|---|
| Yr iaith Gymraeg (i) | Yn gallu siarad Cymraeg | 267 | Ddim yn hysbys |
| Yr iaith Gymraeg (i) | Ddim yn gallu siarad Cymraeg | 1233 | Ddim yn hysbys |
| Yr iaith **Gymraeg** (i) | **Cyfanswm** | 1500 | Ddim yn hysbys |
| Rhieni Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (ii) | Rhieni Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol | 78 | Ddim yn hysbys |
| Rhieni Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (ii) | Rhieni nad oeddent yn Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol | 1422 | Ddim yn hysbys |
| **Rhieni Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (ii)** | **Cyfanswm** | 1500 | Ddim yn hysbys |

(i) Sampl darged yn seiliedig ar ganran y bobl yng Nghymru sy’n 3 oed neu'n hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg

(ii) Sampl darged yn seiliedig ar ganran y bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru

**Manylion pellach ar ddadansoddiad meintiol o'r arolwg**

Cafodd cwestiynau'r arolwg gydag opsiynau ymateb trefnol, h.y. y rhai â threfn amlwg i'r ymateb, eu hailgodio i ymatebion rhifiadol. Er enghraifft, byddai cwestiwn gydag ymatebion 'isel'/'canolig'/'uchel' yn cael ei ail-godio fel '1'/'2'/'3'.

Oherwydd y niferoedd bach o ysgolion arbennig ac UCDau a diffyg data cyfrifiad ar rai categorïau o ddata ar gyfer y lleoliadau hyn, pwysolwyd ymatebion o'r mathau hyn o ysgolion yn ôl sector yn unig. Ar gyfer pob cwestiwn, dim ond os oeddent wedi darparu ymateb ystyrlon y cafodd ymatebwyr eu cynnwys yn y matrics pwysoli, felly nid yw'r crynodebau wedi'u pwysoli sydd yn yr adroddiad yn cynnwys opsiwn 'Dim ymateb'.

Yn dibynnu ar y math o ymateb i gwestiwn yr arolwg a'r newidyn demograffig o ddiddordeb, dewiswyd y prawf mwyaf priodol i bennu gwahaniaethau nodedig o'r canlynol:

- Prawf chi-sgwâr: a ddefnyddir lle mae'r newidynnau deilliant a'r newidynnau darogan yn gategorig
- Prawf Mann-Whitney: a ddefnyddir lle mae un newidyn yn gategorig â dwy lefel a'r llall yn drefnol
- Prawf Kruskal Wallis: a ddefnyddir lle mae'r deilliant yn newidyn trefnol a'r daroganwr yn gategorig gyda mwy na dwy lefel
- Prawf Safle Spearman: a ddefnyddir lle mae'r deilliant a'r daroganwr yn drefnol

Yn dilyn y profion casgliadol, addaswyd modelau atchweliad post-hoc ar gyfer newidynnau deilliant trefnol, er mwyn pennu lefelau penodol y newidynnau darogan lle mae gwahaniaeth nodedig. Cafodd model atchweliad llinol ei ffitio a chafodd y newidyn trefnol wedi'i ail-godio ei drin fel deilliant parhaus a phob un o'r newidynnau demograffig eu trin fel daroganwyr. Lle y cyflwynwyd amrywiadau gwahanol o gwestiwn i wahanol grwpiau blwyddyn, ni chynhwyswyd y newidyn 'Grŵp blwyddyn dysgwr' fel daroganwr.

# Atodiad C: Mapio Ffactorau

Mae'r atodiad hwn yn nodi pa gwestiynau a fapiwyd yn erbyn pob ffactor a gynhwysir yn y SEMs.

**Mapio ffactorau – arolwg o ddysgwyr**

Roedd y cwestiynau a gafodd eu mapio i'r ffactor **dysgwyr yn cydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm** yn cynnwys y datganiadau canlynol:

- "Mae athrawon a staff wir yn gwrando ar blant"
- "Mae athrawon yn gofyn i mi beth hoffwn i ddysgu amdano" (Blwyddyn 3 ac uwch)
- "Mae athrawon yn gofyn i mi sut hoffwn i ddysgu" (Blwyddyn 3 ac uwch)
- "Rwy'n gallu dweud wrth athrawon os ydw i'n hoffi beth dwi'n dysgu amdano neu ddim"

Cynlluniwyd y cwestiynau hyn i gofnodi arferion sy'n angenrheidiol ar gyfer cydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm ar lefel yr ystafell ddosbarth.

Roedd datganiadau cwestiynau wedi'u mapio i'r ffactor **ymddiriedaeth dysgwyr yn yr ysgol** yn seiliedig ar waith Adams a Forsyth (2004) ac yn cynnwys y canlynol[Troednodyn 1]:

- "Rwy'n mwynhau mynd i'r ysgol"
- "Rwy'n mwynhau beth dwi'n ddysgu yn yr ysgol"
- "Rwy'n teimlo y galla'i fod yn fi fy hun yn yr ysgol" (Blwyddyn 3 ac uwch)
- "Rwy'n cael yr holl help dwi ei angen yn yr ysgol"
- "Rwy'n gallu gweld y cysylltiadau rhwng y gwahanol bynciau dwi'n dysgu amdanynt yn yr ysgol" (Blynyddoedd 7-9)
- "Rwy'n meddwl bod yr ysgol yn deg i bawb"
- "Mae fy athrawon yn fy helpu i ddeall pan fyddai'n gwella wrth ddysgu"
- "Mae athrawon a staff bob amser yn barod i helpu"
- "Mae'n hawdd siarad ag athrawon a staff"
- "Mae athrawon a staff wir yn gwrando ar blant"
- "Mae athrawon a staff yn cymryd gofal da o blant"

[1] Adams, CM a Forsyth, PB (2004). The Effect of Proximate Sources of Efficacy Information on Collective Teacher Efficacy. Papur a gyflwynwyd yn AERA, 15 Ebrill, San Diego, CA.

Roedd cwestiynau a gafodd eu mapio i'r ffactor **lles dysgwyr** yn deillio o Raddfa Llesiant Plant Stirling (Liddle a Carter, 2010)[Troednodyn 2] gan ddefnyddio eitemau dethol sy'n gysylltiedig â chyflwr emosiynol cadarnhaol dysgwyr (cwestiynau am fod mewn hwyliau da a dod ymlaen yn dda gyda phobl) a'u hagwedd gadarnhaol (cwestiynau am, er enghraifft, eu disgwyliad y bydd pethau da yn digwydd yn eu bywyd, a theimlo bod eraill yn poeni amdanynt, a bod ganddynt bethau i fod yn falch ohonynt). Roedd y datganiadau fel a ganlyn:

- "Rwy'n meddwl y bydd pethau da yn digwydd yn fy mywyd"
- "Rwy'n teimlo fy mod i'n gallu gwneud rhai pethau'n dda"
- "Rwy'n medd bod llawer o bobl yn poeni amdanaf"
- "Rwy'n meddwl bod llawer o bethau y gallaf fod yn falch ohonynt"
- "Rwyf wedi bod mewn hwyliau da"
- "Rwyf wedi bod yn dod ymlaen yn dda gyda phobl"

Roedd cwestiynau a gafodd eu mapio i'r ffactor **canfyddiadau dysgwyr o gynnydd tuag at y pedwar diben** yn rhai a oedd yn canolbwyntio ar ganfyddiad yr ymatebwyr o ran a oedd eu dysgu yn yr ysgol yn eu helpu i wneud cynnydd tuag at y pedwar diben a fynegir yn y Cwricwlwm i Gymru (dyheadau i ddysgwyr ddod yn uchelgeisiol a galluog, yn iach ac yn hyderus; yn fentrus ac yn greadigol; yn ogystal â bod yn egwyddorol a gwybodus). Mynegwyd y datganiadau a gyflwynwyd i'r dysgwyr mewn ffyrdd a oedd yn briodol i'r dysgwyr mewn gwahanol grwpiau blwyddyn:[Troednodyn 3]

- Dosbarth Derbyn - Blwyddyn 2 – "Mae'r ysgol yn fy helpu i…"
    - "gredu ynof fi fy hun a'r hyn y gallaf ei wneud"
    - "bod yn iachach"
    - "meddwl am syniadau newydd"
    - "bod yn fwy creadigol"
    - "bod y gorau y gallaf fod"
    - "deall a phoeni am bobl a'r byd"
- Blynyddoedd 3-6 – "Mae'r ysgol yn fy helpu i…"
    - "dod yn uchelgeisiol"

---

[2] Gweler Liddle, I., a Carter, G. (2010). Emotional and psychological wellbeing in children: The standardisation of the Stirling Children's Wellbeing Scale. *Gwasanaeth Seicoleg Addysg Cyngor Stirling*.
[3] Mae'r dull o ymdrin ag amrywiadau yn y cwestiynau a gyflwynwyd i wahanol grwpiau oedran i'w weld ym Mhennod 2.

- “gredu ynof fi fy hun a’r hyn y gallaf ei wneud”
- “bod yn iach ac yn hyderus”
- "meddwl am syniadau newydd"
- “dod o hyd i ffyrdd o ddatrys problemau”
- “bod yn fwy creadigol”
- “deall a phoeni am bobl a’r byd”
- “bod yn fwy ymwybodol o’r hyn sy’n digwydd yn y byd”
- “bod y gorau y gallaf fod”

- Blynyddoedd 7-9 – “Mae'r ysgol yn fy helpu i…”
    - “dod yn uchelgeisiol ac yn alluog”
    - “bod yn iach ac yn hyderus”
    - “dod yn fentrus ac yn greadigol”
    - “dod yn egwyddorol ac yn wybodus”
    - “dod o hyd i ffyrdd o ddatrys problemau”
    - “cyrraedd fy mhotensial llawn”

**Mapio ffactorau – arolwg rhieni**

Roedd y cwestiynau a gafodd eu mapio i'r ffactor **cyfle i rieni gydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm** yn seiliedig ar waith blaenorol (Sinnema ac Aitken, 2013; Sinnema, 2011) yn ymwneud â chyfraniad rhieni at weithredu cwricwla cenedlaethol mewn ysgolion. Roedd y cwestiynau nid yn unig yn cwmpasu canfyddiadau rhieni am gyfleoedd i rannu eu syniadau am yr hyn y mae plant yn ei ddysgu, ond hefyd sut y maen nhw'n dysgu. Canolbwyntiodd y cwestiynau ar rieni fel darparwyr a derbynyddion adborth a syniadau am y cwricwlwm y mae eu plant a'u pobl ifanc yn ei astudio. Gofynnwyd i rieni faint o gyfle yr oeddent wedi'i gael yn ysgol eu plentyn i:

- “rannu syniadau am beth mae eich plentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol”
- “rhannu syniadau am sut mae eich plentyn yn dysgu yn yr ysgol”
- “rhoi adborth ar gwricwlwm yr ysgol”
- “clywed am sut y gallwch gefnogi dysgu eich plentyn”
- "cyfrannu eich profiad neu arbenigedd i gefnogi'r addysgu a'r dysgu."

Roedd cwestiynau a gafodd eu mapio i'r ffactor **galluedd rhieni** yn seiliedig ar gysyniadau o alluedd a nodwyd gan Torres Castro a Pineda-Baez, (2023), Vähäsantanen 2015) ac ar waith arloesol Bandura (2006). Roedd y cwestiynau'n holi am alluedd rhieni yng nghyd-destun eu cynnwys mewn trafodaethau sy'n ymwneud â'r cwricwlwm. Gofynnwyd i rieni i ba raddau yr oeddent yn cytuno bod ysgol eu plentyn yn eu cynnwys mewn trafodaethau am y cwricwlwm mewn ffordd a oedd yn:

- "gwneud i mi deimlo bod rhywun yn gwrando arnaf"
- "gwneud i mi deimlo'n hyderus yn addysg fy mhlentyn"
- "gwneud i mi deimlo'n frwdfrydig i gefnogi addysg fy mhlentyn"

Roedd nifer sylweddol o gwestiynau wedi'u mapio i'r cysyniad cyffredinol o **ganfyddiadau rhieni o gynnydd tuag at ddyheadau'r cwricwlwm**. O ganlyniad, ystyriwyd tri is-ffactor ar wahân yn y dadansoddiad i fesur canfyddiadau rhieni o wahanol agweddau ar gynnydd tuag at y pedwar diben.

Roedd yr is-ffactor cyntaf, **canfyddiadau rhieni o'r cynnydd tuag at bedwar diben**, yn cynnwys cwestiynau sy'n canolbwyntio ar ganfyddiad rhieni bod dibenion y cwricwlwm ar y lefel ehangaf yn cael eu cyflawni. Roedd yn targedu'n uniongyrchol ganfyddiadau rhieni o gynnydd tuag at bedwar diben yn union fel y'u mynegwyd yn y Cwricwlwm i Gymru: roedd pedair eitem yn gofyn i rieni nodi lefel eu hyder bod y cwricwlwm, yr addysgu a'r dysgu yn ysgol eu plentyn yn ei helpu i ddod yn "uchelgeisiol a galluog", "iach a hyderus", "mentrus a chreadigol" ac "egwyddorol a gwybodus".

Roedd yr ail is-ffactor, **canfyddiadau rhieni bod cynnydd (yn gyffredinol) yn cael ei gefnogi**, hefyd yn cwmpasu pum eitem yn ymwneud ag athrawon ac addysg eu plentyn yn fwy cyffredinol. Roedd y cwestiynau hyn yn gofyn i ba raddau yr oedd rhieni'n cytuno â'r canlynol:

- “Mae athrawon fy mhlentyn…”
    - “yn deall cefndir, gallu ac anghenion unigol fy mhlentyn”
    - “yn darparu’r cymorth cywir i alluogi fy mhlentyn i wneud cynnydd”
- “Mae addysg fy mhlentyn…”
    - “yn ei helpu i gyrraedd ei botensial llawn”
    - “yn diwallu ei anghenion”
    - “yn cefnogi ei les”

Roedd y trydydd is-ffactor, **canfyddiadau rhieni o gynnydd sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer y dyfodol**, yn cwmpasu dau gwestiwn am sut yr oedd addysg eu plentyn yn ei helpu i baratoi ar gyfer ei gamau nesaf mewn gwaith a bywyd. Gofynnwyd i rieni nodi i ba raddau yr oeddent yn hyderus bod yr hyn yr oedd eu plentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol:

- “yn ei helpu i baratoi ar gyfer ei gamau nesaf yn ei addysg”

- “yn ei helpu i baratoi ar gyfer gwaith ac ar gyfer bywyd yn fwy cyffredinol”

Roedd cwestiynau a gafodd eu mapio i'r ffactor **ymddiriedaeth rhieni yn yr ysgol** yn seiliedig ar “The Parent Trust in School Scale” gan Forsyth, Adams a Barnes.[Troednodyn 4] Mae'r raddfa honno'n cynnwys 15 eitem sy'n asesu canfyddiadau rhieni o gymwynasgarwch, gonestrwydd, natur agored, dibynadwyedd a chymhwysedd personél yr ysgol. Gofynnwyd i rieni i ba raddau yr oeddent yn cytuno â'r canlynol:

- “Mae’r ysgol yn dda am rannu gwybodaeth â mi”
- “Gallaf ymddiried yn yr athrawon a'r staff yn ysgol fy mhlentyn”
- “Mae athrawon a staff ysgol fy mhlentyn yn barod i helpu”
- “Mae athrawon a staff yr ysgol yn gwrando arnaf os oes gen i bryderon”
- “Mae athrawon a staff yr ysgol yn cymryd gofal da o fy mhlentyn”
- “Mae gan fy mhlentyn fynediad at gymorth ychwanegol yn yr ysgol os oes angen”
- “Gallaf gael gafael ar athro/athrawon fy mhlentyn yn hawdd”
- “Rwy’n fodlon ag ysgol fy mhlentyn”

Roedd y cwestiynau a gafodd eu mapio i'r ffactor **bodlonrwydd rhieni gyda gwybodaeth** yn holi ynghylch lefel bodlonrwydd rhieni gyda'r wybodaeth maen nhw'n ei derbyn gan ysgol eu plentyn ynglŷn â:

- “chynnydd cyffredinol fy mhlentyn”
- “cynnydd eich plentyn mewn llythrennedd” (rhieni Dosbarth Derbyn-Blwyddyn 6)
- “cynnydd eich plentyn mewn rhifedd” (rhieni Dosbarth Derbyn-Blwyddyn 6)
- “cynnydd eich plentyn yn Saesneg” (rhieni Blwyddyn 7-9)
- “cynnydd eich plentyn yn y Gymraeg” (rhieni Blwyddyn 7-9)
- “cynnydd eich plentyn mewn Mathemateg a rhifedd (rhieni Blwyddyn 7-9)”

[4] Gweler Forsyth, PB, Adams, CM, a Hoy, WK (2011).*Collective trust: why schools can't improve without it*. Teachers College Press.

# Atodiad D: Gwybodaeth dechnegol ar FA ac SEM a dadansoddiad ychwanegol

Mae'r atodiad hwn yn cynnwys rhagor o wybodaeth dechnegol am yr FA a'r SEM a gynhaliwyd (gweler Pennod 20). Roedd y dadansoddiad hwn yn archwilio'r cysylltiadau rhwng setiau o gwestiynau wedi'u grwpio (ffactorau) yn yr arolwg er mwyn archwilio cryfder y cysylltiad rhyngddynt. Roedd y fethodoleg ar gyfer hyn yn cynnwys technegau ystadegol cymhleth, sef Dadansoddi Ffactorau (FA) a Modelu Hafaliadau Strwythurol (SEM). Mae manylion y fethodoleg i'w gweld ym Mhennod 2.

**Beth yw SEM?**

**Enghraifft**

Gydag FA ac SEM, y cysyniad allweddol yw y gallai llawer o wahanol ddatganiadau fod yn gysylltiedig â'r un "ffactor", ac felly bydd y ffordd y mae pobl yn ymateb iddynt yn eithaf tebyg. Er enghraifft, os oedd “mwynhad o ymarfer corff” yn ffactor mewn arolwg iechyd yna efallai y byddai tri chwestiwn yn gofyn:

- faint ydych chi'n mwynhau rhedeg?
- faint ydych chi'n mwynhau beicio?
- faint ydych chi'n mwynhau nofio?

Gellid disgwyl yn rhesymol i'r tri chwestiwn hyn fod yn gysylltiedig â'r ffactor "mwynhad o ymarfer corff" - mae'n eithaf synhwyrol tybio bod pobl sy'n mwynhau un math o ymarfer corff, ar draws grŵp cyfan, yn gyffredinol yn fwy tebygol o fwynhau math arall. Bydd yn well gan lawer o bobl un math o ymarfer corff nag un arall, ond mae FA ac SEM yn ymwneud â sefydlu'r tueddiadau sy'n bresennol ar draws poblogaethau cyfan.

Felly, mae cynnal FA yn golygu defnyddio ystadegau i wirio bod y cwestiynau y disgwylir iddynt gydberthyn â'i gilydd yn gwneud yr hyn a ragwelwyd. [Troednodyn 5]. Gellir archwilio cydberthyniadau ar gyfer ymatebion i unrhyw bâr penodol o gwestiynau, ac mae'r cyfernodau cydberthyniad sy'n dod i'r amlwg yn dangos, ar raddfa o -1 i +1, pa mor agos y mae ymatebion i ddau gwestiwn gan yr un bobl yn cadarnhau hynny. Byddai cydberthyniad o +1 yn dangos bod yr holl ymatebwyr wedi rhoi'r un ymateb yn union i'r ddau gwestiwn, byddai -1 yn dangos bod yr holl ymatebwyr yn anghytuno'n llwyr ar y ddau gwestiwn (h.y. “llawer iawn” ar gyfer un, “ddim o gwbl” ar gyfer y llall), a byddai 0 yn dangos nad oes perthynas rhwng yr ymatebion i'r ddau gwestiwn.

Gydag FA, gellir defnyddio'r cydberthyniadau rhwng cwestiynau hyn i gynhyrchu 'sgôr ffactor' ar gyfer pob ymatebydd, yn seiliedig ar ba mor dda y mae pob cwestiwn yn cydberthyn i'r cwestiynau eraill sy'n rhan o'r ffactor. Caiff pa mor dda y mae pob cwestiwn

[5] Mae hyn yn wir am FA er mwyn cadarnhau – mae dulliau archwiliadol hefyd yn bosibl lle nad yw'r cysylltiadau'n cael eu gorfodi ar y data ond yn dod i'r amlwg wrth i'r dadansoddiad gael ei gynnal. Fodd bynnag, gan fod theori newid eisoes wedi'i gyhoeddi yn yr achos hwn, roedd dadansoddiad er mwyn cadarnhau yn fwy priodol.

yn cydberthyn i'r cwestiynau eraill ei grynhoi fel gwerth 'llwytho', sef y gydberthynas rhwng yr ymatebion i'r datganiad, a'r sgôr ffactor cyffredinol.

Yn yr enghraifft uchod, byddai sgoriau'r tri chwestiwn yn cyfrannu at sgôr gyffredinol "mwynhad o ymarfer corff" fesul ymatebydd, a gallem, er enghraifft, weld gwerthoedd llwytho fel a ganlyn:

- Faint ydych chi'n mwynhau rhedeg? (Llwyth ffactor = 0.731)
- Faint ydych chi'n mwynhau beicio? (Llwyth ffactor = 0.724)
- Faint ydych chi'n mwynhau nofio? (Llwyth ffactor = 0.597)

Mae'r gwerthoedd hyn i gyd yn gydberthyniadau cymedrol i gryf, uwchlaw +0.5. Mae hyn yn dangos bod y tri chwestiwn yn cydberthyn yn eithaf da i'r ffactor sylfaenol (tybiedig) "mwynhad o ymarfer corff". Fodd bynnag, nid oes gan fwynhad o nofio werth llwyth mor uchel, sy'n dangos nad yw'n cydberthyn cystal i'r ddau gwestiwn arall sy'n cynnwys y ffactor. Gallai hyn adlewyrchu'r ffaith nad yw pobl sy'n mwynhau nofio o bosibl yn hoffi mathau eraill o ymarfer corff ar y tir, ac i'r gwrthwyneb – fel un o nifer o esboniadau posibl.

Fel arfer bydd llawer o ffactorau gwahanol yn cael eu mesur gydag arolwg. Gan ddychwelyd at yr enghraifft iechyd uchod, gallai ymchwilwyr hefyd fod yn ceisio mesur y ffactorau "mwynhad o fwydydd iach" ac "agwedd rhieni at ymarfer corff", y mae sawl cwestiwn ar bob un ohonynt yn yr arolwg sydd wedi'u cynllunio i archwilio agweddau tuag at y cysyniadau sylfaenol hynny.[Troednodyn 6]. Pan fo hyn yn wir, yn aml bydd perthynas dybiedig rhwng y ffactorau hyn. Gan ddefnyddio'r enghraifft iechyd, gallai fod yn wir bod ymchwilwyr yn credu y bydd "agwedd rhieni at ymarfer corff" (ffactor darogan) yn effeithio ar "fwynhad o fwydydd iach" a "mwynhad o ymarfer corff" (ffactor deilliant), a hefyd y gallai "mwynhad o fwydydd iach" (fel rhyng-ffactor, neu gyfryngwr) ei hun effeithio ar "fwynhad o ymarfer corff".


Mae modelu hafaliadau strwythurol (SEM) yn estyniad o FA sy'n caniatáu ymchwilio i gysylltiadau o'r fath. Ymchwilir i bob cysylltiad unigol rhwng ffactorau o ddiddordeb gan ddefnyddio atchweliad, sy'n cynhyrchu 'cyfernod llwybr' y gellir ei ddehongli mewn modd tebyg i gydberthyniad. Yn ein hesiampl ni, un berthynas fyddai pe bai "agwedd rhieni at ymarfer corff" (ffactor darogan) yn cydberthyn â "mwynhad o ymarfer corff" (ffactor deilliant); gallai'r cyfernod llwybr ar gyfer hyn fod yn 0.636. Byddai hyn yn dangos cydberthyniad cymharol gryf rhwng y ddau ffactor hyn – mae pobl y mae gan eu rhieni agwedd gadarnhaol at ymarfer corff yn debygol o fwynhau ymarfer corff yn fwy hefyd.

Ailadroddir y broses hon ar gyfer pob cysylltiad wedi'i fodelu ac yn gyffredinol fe'i disgrifir gan ddefnyddio diagram er mwyn hwyluso'r dehongli. Mae siapiau hirgrwn yn dynodi ffactorau, mae'r saethau'n dangos cyfeiriad y cysylltiadau yr ymchwiliwyd iddynt, ac mae'r rhifau uwchben pob saeth yn dangos cyfernod y llwybr.

---

[6] Mae gofyn sawl cwestiwn am bob ffactor yn arfer da, gan ei fod yn atal canlyniadau camarweiniol – yn ein hesiampl uchod, os oedd rhai pobl yn casáu nofio ond yn mwynhau rhedeg a beicio, byddai gofyn iddynt a ydynt yn mwynhau nofio yn unig yn rhoi syniad camarweiniol iawn i ni ynglŷn â faint roedden nhw'n hoffi ymarfer corff.

**Ffigur 2. Enghraifft ddamcaniaethol o ddiagram model hafaliad strwythurol**




Yn yr enghraifft ddamcaniaethol uchod, mae cydberthyniad cymedrol rhwng "agwedd rhieni at ymarfer corff" a "mwynhad o fwydydd iach", ond dim ond cydberthyniad gwan rhwng "mwynhad o fwydydd iach" (fel ffactor canolraddol, neu gyfryngwr) a "mwynhad o ymarfer corff". Felly, y dehongliad o'r model hwn fyddai bod cysylltiad rhwng agwedd eich rhieni at ymarfer corff a pha mor debygol ydych chi o fwynhau bwydydd iach ac ymarfer corff, ond bod cysylltiad cryfach â'r olaf. Yn ogystal â hyn, nid yw pobl sy'n mwynhau bwyd iach o reidrwydd yn debygol o fwynhau ymarfer corff hefyd – mae agwedd gadarnhaol eich rhieni tuag at ymarfer corff yn dangos cysylltiad llawer cryfach â mwynhad o ymarfer corff.

Yn yr enghraifft hon, os oedd yr ymchwilwyr wedi rhagweld y byddai'r cysylltiad rhwng bwyd iach a mwynhad o ymarfer corff yn dod i'r amlwg, yna efallai y bydd angen iddynt fyfyrio ar pam ei fod mor wan yn ymarferol. Efallai na wnaethant ofyn cwestiynau a oedd yn targedu'r ffactor bwriadedig yn ddigon da, a chawsant eu camddehongli gan yr ymatebwyr, neu efallai nad yw'r cysylltiad yn bresennol i'r graddau yr oeddent yn ei ddisgwyl. Serch hynny, y pwynt allweddol yw y gellir cael rhagor o wybodaeth am brosesau cymhleth drwy ddadansoddiad SEM.

Nid yw SEM yn sefydlu achosiaeth – bod un ffactor yn arwain at un arall – dim ond bod sgoriau'r ymatebwyr ar ddau ffactor yn cydberthyn. Ond serch hynny, gall ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol a fydd o gymorth i rowndiau pellach o arolygon, yn ogystal â helpu i ddeall theori newid a'r polisi targed yn well, ble bo angen.

Yn achos yr arolwg hwn, gellir defnyddio SEM i ganfod a yw'r theori newid ar gyfer gweithredu'r diwygiadau i'r cwricwlwm yn gweithio fel y disgwyliwyd. Lle nad yw hyn yn wir, mae ambell achos posibl, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Nid yw cwestiynau'r arolwg yn targedu'r ffactor a ddymunir fel y disgwyliwyd, ac efallai y bydd angen eu diwygio
- Nid yw'r sampl o ymatebwyr a gafwyd yn profi'r un theori newid â'r boblogaeth gyfan, ac efallai y bydd angen mwy o ymatebion
- Nid yw'r theori newid fel y'i nodwyd yn wreiddiol yn adlewyrchu realiti gweithredu'r diwygiadau i'r cwricwlwm yn llawn. Yna gellir diweddaru'r theori newid i ddisgrifio'n well y ffordd y mae pethau'n gweithio'n ymarferol, a diweddaru'r polisi yn unol â hynny os oes angen

- Nid yw'r nod fel y'i nodir yn y theori newid wedi dod i'r amlwg yn ymarferol. Yn yr achos hwn, gellir defnyddio'r arolwg neu ddata eraill i ddadansoddi pam mae hyn yn wir, ac awgrymu lle y gallai cefnogaeth bellach, cyfathrebu neu adnoddau eraill fod yn fuddiol

Yn hollbwysig, ni fydd SEM yn darparu cyfiawnhad clir dros unrhyw un o'r achosion hyn gan mai dyna'r achos lle mae gwyriadau o'r theori newid yn dod i'r amlwg. Nid yw ychwaith yn sefydlu achosiaeth – bod un ffactor yn arwain at un arall – dim ond bod sgoriau'r ymatebwyr ar ddau ffactor yn cydberthyn. Ond serch hynny, gall ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol a fydd o gymorth i rowndiau pellach o arolygon, yn ogystal â helpu i ddeall theori newid a'r polisi targed yn well, ble bo angen.

Yn yr ymchwil hwn gyda rhieni a dysgwyr, defnyddiwyd y technegau dadansoddi hyn i ymchwilio i'r theori newid yn ymarferol yn seiliedig ar ymatebion i'r arolwg hwn. Cynhaliwyd dadansoddiad ar wahân ar gyfer rhieni ac ar gyfer dysgwyr. Ym mhob achos, defnyddiwyd FA cychwynnol i gadarnhau bod llwyth ffactorau datganiadau fel y rhagwelwyd cyn cynnal SEM. I rieni roedd sawl model damcaniaethol a oedd fymryn yn wahanol[Troednodyn 7] wedi'i gyflwyno gan y theori newid. Yn yr achos hwn, cadwyd y model a oedd yn gweddu orau i'r data ac adroddwyd arno yn yr adroddiad hwn.

**Canfyddiadau manwl: SEM Dysgwr**

Modelwyd pedwar atchweliad fel rhan o'r SEM, fel y'u cynrychiolir gan y saethau yn y diagram llwybr ym Mhennod 22. Mae pob saeth yn adlewyrchu atchweliad unigol; er enghraifft, mae'r saeth uchaf yn adlewyrchu ceisio archwilio cysylltiadau rhwng (neu ragweld) lefel **canfyddiad dysgwyr o gynnydd tuag at y pedwar diben** yn seiliedig ar lefel y **cydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm**. Mae'r gwerthoedd uwchben pob saeth yn adlewyrchu'r cyfernod safonedig ar gyfer yr atchweliad hwnnw. Mae gwerthoedd lliw coch yn adlewyrchu unrhyw atchweliad nad oedd yn ystadegol arwyddocaol.

Noder i ddechrau, y cafodd cysylltiad ychwanegol rhwng **dysgwyr yn cydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm** a **chanfyddiadau dysgwyr o gynnydd tuag at y pedwar diben** ei fodelu fel rhan o'r SEM hwn. Fodd bynnag, nid oedd y cysylltiad hwnnw'n ystadegol arwyddocaol a chafodd effaith negyddol ar arwyddocâd cysylltiadau eraill yn y model. O'r herwydd, cafodd ei ddileu o'r model terfynol a gyflwynir isod.

Mae'r canfyddiadau'n dangos bod cysylltiad rhwng **ymddiriedaeth dysgwyr yn yr ysgol** a **lles dysgwr**, a'r graddau y mae **dysgwyr yn cydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm**. Mae maint y cysylltiad yn fwy ar gyfer **ymddiriedaeth dysgwr yn yr ysgol** na **lles dysgwr** fodd bynnag, gyda chyfernod o 0.959 yn hytrach na 0.586, gan ddangos bod cysylltiad agosach rhwng **ymddiriedaeth dysgwr yn yr ysgol** a **dysgwyr yn cydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm**. Yn reddfol byddai llawer o ffactorau eraill yn effeithio ar lesiant dysgwyr, felly

[7] Gyda ffactorau gwahanol yn bresennol yn yr SEM, a/neu gysylltiadau gwahanol wedi'u modelu rhyngddynt.

nid yw hwn yn ganfyddiad annisgwyl ac o ystyried hyn, gallai cyfernod o dros 0.5 awgrymu rhesymeg gref dros ddysgwyr yn cydweithio ar gynllunio cwricwla ysgolion.

Mae'r canfyddiadau'n dangos bod cysylltiad rhwng **canfyddiad dysgwyr o gynnydd tuag at y pedwar diben** ac **ymddiriedaeth dysgwyr yn yr ysgol**, a **lles**. Gwelir cysylltiad cryfach eto ar gyfer **ymddiriedaeth dysgwyr yn yr ysgol** na **lles dysgwyr**, ac yn nodedig mae cyfernod **lles dysgwyr** yn llai ar 0.202, ond mae cyfernod **ymddiriedaeth dysgwyr yn yr ysgol** yn uwch, ar 0.661. Mae hyn yn dangos bod cysylltiad agosach rhwng y graddau y mae dysgwyr yn ymddiried yn eu hysgol a **chanfyddiad dysgwyr o gynnydd tuag at y pedwar diben**, ac er bod cydberthyniad rhwng lles dysgwyr a'r cynnydd hwn hefyd, dim ond cysylltiad gwan ydyw. Eto, nid yw'r ffaith bod y cysylltiadau hyn yn wannach na'r rhai'n ymwneud â **dysgwyr yn cydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm** yn syndod, gan fod yr effaith ar y pedwar diben hefyd yn gofyn am weithredu'r cwricwlwm newydd, tra bod yr effaith ar ymddiriedaeth a lles yn fwy uniongyrchol. At hynny, efallai nad yw'r broses weithredu wedi ymsefydlu eto, felly byddem yn gobeithio gweld cysylltiad cryfach yma yng nghamau dilynol yr arolwg.

Fel y trafodwyd uchod, cafodd y berthynas rhwng **canfyddiad dysgwyr o gynnydd tuag at y pedwar diben** a **dysgwyr yn cydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm** ei fodelu i ddechrau, ond profodd nad oedd yn ystadegol arwyddocaol. Felly, y dehongliad allweddol yma yw bod y cysylltiad rhwng **dysgwyr yn cydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm** a **chanfyddiad dysgwyr o gynnydd tuag at y pedwar diben** yn cael ei gyfryngu gan **les dysgwyr** ac **ymddiriedaeth dysgwyr yn yr ysgol** (ond i raddau amrywiol), gan fod cysylltiadau ystadegol arwyddocaol (neu ychydig yn arwyddocaol) sy'n disgrifio'r berthynas hon.

**Canfyddiadau manwl: SEM Rhieni**

Modelwyd 12 atchweliad fel rhan o'r SEM, fel y'u cynrychiolir gan y saethau yn y diagram llwybr yn **Error! Reference source not found.** ym Mhennod 22 y prif adroddiad. Fel arfer, mae pob saeth yn adlewyrchu atchweliad unigol; er enghraifft, mae'r saeth isaf yn adlewyrchu ymgais i archwilio'r berthynas rhwng lefel **ymddiriedaeth rhieni yn yr ysgol** a'r **cyfle i rieni gydweithredu ar ddylunio cwricwlwm**. Mae'r gwerthoedd uwchben pob saeth yn adlewyrchu'r cyfernod safonedig ar gyfer yr atchweliad hwnnw. Mae gwerthoedd lliw coch yn adlewyrchu unrhyw atchweliad nad oedd yn ystadegol arwyddocaol.

Oherwydd cymhlethdod cyflwyno'r model hwn yn weledol yn ei gyfanrwydd, a fyddai'n arwain at saethau'n gorgyffwrdd, cyflwynir y tri ffactor sy'n sail i'r cysyniad cyffredinol o **ganfyddiadau rhieni o gynnydd tuag at ddyheadau'r cwricwlwm** fel un nod (mewn siâp hirgrwn) yn y ffigur isod. Felly, mae pob saeth sy'n pwyntio at y nod hwn yn cynrychioli tri atchweliad ar wahân, pob un yn archwilio'r berthynas ag un o'r ffactorau cysylltiedig: **cynnydd tuag at y pedwar diben**, **cefnogi cynnydd (yn gyffredinol)**, a **chynnydd sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer y dyfodol**. O ganlyniad, mae tri gwerth uwchben y saethau hyn yn lle hynny, sy'n dynodi'r cyfernodau safonedig ar gyfer yr atchweliad sy'n archwilio'r cysylltiad â'r ffactor perthnasol.

Mae'r canfyddiadau'n dangos bod cydberthyniad cryf a chadarnhaol rhwng lefel **ymddiriedaeth rhieni yn yr ysgol** ac **ysgolion yn hyrwyddo galluedd rhieni**, gyda

chyfernod o 0.982. Mae cysylltiad cadarnhaol hefyd rhwng ysgolion yn hyrwyddo galluedd rhieni a'r tri ffactor sy'n sail i **ganfyddiadau rhieni o gynnydd tuag at ddyheadau'r cwricwlwm**, gyda dau o'r tri dros 0.720 a'r trydydd, sef **cefnogi cynnydd**, yn llai cryf ar 0.498. Mae hyn yn dangos bod y ffactor ysgolion yn **hyrwyddo galluedd rhieni** yn gysylltiedig â lefelau uwch o bob un o'r ffactorau eraill hyn, ond bod y cysylltiad agosaf â lefel **ymddiriedaeth rhieni yn yr ysgol**. Mae hyn yn gwneud synnwyr, gan fod y canfyddiad o alluedd yn debygol o feithrin neu o leiaf gyd-ddigwydd â theimladau o ymddiriedaeth.

O'r herwydd, mae cysylltiad clos rhwng lefel **ymddiriedaeth rheini yn yr ysgol** a lefel y tri ffactor sy'n sail i **ganfyddiadau rhieni o gynnydd tuag at ddyheadau'r cwricwlwm**, ond mae'n llai clos na'r cysylltiad a drafodir uchod. Yn yr achos hwn, mae'r cysylltiad cryfaf â **chyfraniad rhieni at gynnydd**, sef 0.486, ac mae gan y ddau ffactor arall gyfernodau is o tua 0.260. Ynghyd â'r canfyddiadau a amlinellir uchod, mae hyn yn awgrymu bod y cyfuniad o **ysgolion yn hyrwyddo galluedd rhieni** ac **ymddiriedaeth rhieni yn yr ysgol** yr un mor gysylltiedig â **chefnogi cynnydd**, a bod cysylltiad cryfach rhwng **cynnydd tuag at y pedwar diben** a **chynnydd – paratoi ar gyfer y dyfodol** a **hyrwyddo galluedd rhieni**.

O ystyried y cwestiynau sy'n sail i **ymddiriedaeth rhieni yn yr ysgol** a **chefnogi cynnydd**, mae'n amlwg bod cysylltiad agosach rhyngddynt na'r ddau ffactor arall, sef **canfyddiadau rhieni o gynnydd tuag at ddyheadau'r cwricwlwm**, a allai egluro'r canfyddiad hwn. Er enghraifft, mae **ymddiriedaeth rhieni yn yr ysgol** yn gofyn a yw rhieni'n teimlo bod ysgol eu plentyn yn gwrando, yn gofalu am eu plentyn, ac yn darparu cymorth iddo os oes ei angen, ac mae'r adran **cefnogi cynnydd** yn gofyn cwestiynau eithaf tebyg ynghylch a yw'r ysgol yn deall y plentyn, yn rhoi'r cymorth cywir iddo, ac yn cefnogi ei les. O ystyried hyn, mae'n ddealladwy mai dyma un o'r tri ffactor sydd â'r cysylltiad cryfaf ag **ymddiriedaeth rheini yn yr ysgol** – yn ddiddorol, gellid dadlau bod y cysylltiad ond mor gryf â **hyrwyddo galluedd rhieni**, o ystyried y gyfatebiaeth glos rhwng y cwestiynau a amlinellir uchod.

Mae cysylltiad rhwng y **cyfle i rieni gydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm** ac **ymddiriedaeth rheini yn yr ysgol**, **hyrwyddo galluedd rhieni**, a dau o'r tri ffactor sy'n ymwneud â **chanfyddiadau rhieni o gynnydd tuag at ddyheadau'r cwricwlwm**. Fodd bynnag, dim ond **hyrwyddo galluedd rhieni** sydd â chysylltiad cryf (gyda chyfernod o dros 0.8 o gymharu ag o dan 0.2 ym mhob achos arall), a dyma'r unig gysylltiad cadarnhaol hefyd. Mewn geiriau eraill, mae cydberthyniad rhwng lefel uwch o **gyfle i rieni gydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm** a *lefelau uwch* o **hyrwyddo galluedd rhieni**, ond lefelau *is o* **ymddiriedaeth rhieni yn yr ysgol** a **chanfyddiadau rhieni o gynnydd tuag at ddyheadau'r cwricwlwm**. Fodd bynnag, mae'n nodedig, er bod tri o'r cysylltiadau negyddol hyn wedi cyrraedd y trothwy ar gyfer arwyddocâd ystadegol, eu bod yn sylweddol llai arwyddocaol na'r cysylltiadau cadarnhaol eraill yn y model (gyda gwerthoedd P o 0.002, 0.013, a 0.022, o'u cymharu â $P < 0.001$ yr holl gysylltiadau arwyddocaol eraill). Mae'r cysylltiadau negyddol yma'n awgrymu nad yw amlder y cyfleoedd i gyfrannu yn ddigon ar eu pen eu hunain i feithrin ymddiriedaeth rhieni; gall natur y cyfleoedd hynny hefyd fod yn bwysig o ran eu heffaith ar rieni'n teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt, a'u hyder a'u brwdfrydedd i gymryd rhan yn addysg eu plentyn.

Felly, mae'n gredadwy bod y cysylltiadau cryfach (cyfernodau uwch, ac yn yr achos hwn cyfernodau positif) yn y model yn egluro'r rhan fwyaf o'r amrywiad yn yr ymatebion i'r arolwg, tra bod y cyfernodau negatif ond yn adlewyrchu cysylltiadau ymylol neu ffiniol rhwng

ffactorau. Mae'r gwerthoedd ag arwyddocâd is a meintiau cyfernod llai y cyfernodau negatif yn cefnogi'r ddamcaniaeth hon; hyd yn oed yn y model cyfredol dim ond cysylltiadau gwan y maent yn eu hadlewyrchu rhwng y ffactorau sydd i gyd o dan 0.2 o ran maint. Fel arall, y dehongliad mwy 'arwynebol' o'r canfyddiad hwn yw, heb hyrwyddo galluedd rhieni, bod cyfleoedd i gydweithio yn cael effaith negyddol ar ymddiriedaeth a chanfyddiadau o gynnydd. Efallai fod hyn yn rhesymegol – mae cydweithio, ond teimlo nad yw hynny wedyn wedi cael unrhyw effaith, yn debygol o danseilio ymddiriedaeth yn fwy na pheidio â chael cyfle i gydweithio yn y lle cyntaf. Beth bynnag, mae'r cysylltiadau hyn yn wan ac nid dyma ganfyddiad allweddol y model.

**Manylion pellach ar fethodoleg SEM rhieni a modelau amgen a brofwyd**

Fel y nodir uchod, damcaniaethwyd pedwar model SEM rhieni posibl a allai ddisgrifio a yw **canfyddiadau rhieni o gynnydd tuag at ddyheadau'r cwricwlwm** yn gysylltiedig â chyfuniad o'r canlynol:

- cyfle i rieni gydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm
- hyrwyddo galluedd rhieni
- ymddiriedaeth rhieni yn yr ysgol
- boddhad rhieni gyda gwybodaeth


Er mwyn dewis y gorau, rhedwyd pob model ac aseswyd yr ystadegau ffit er mwyn pennu pa un oedd yn cyd-fynd orau â'r data. Cyflwynir y 'gorau' o bob ystadegyn ffit mewn testun trwm yn y tabl isod i egluro pa fodel oedd yn ffitio orau ym mhob achos. Model 1 (a gyflwynir ym Mhennod 22) oedd y model a oedd yn cyd-fynd orau â phob maen prawf ac eithrio RMSEA, lle roedd model 4 fymryn yn well, ac felly fe'i dewiswyd fel y model i'w drafod yn fanwl yng nghorff yr adroddiad.

**Tabl 3. Ystadegau cryno o bob model SEM rhiant wedi'i ffitio**

| Model | 1 | 2 | 3 | 4 |
|---|---|---|---|---|
| N paramedrau'r model | 96 | 120 | 123 | 105 |
| N arsylwadau | 1084 | 1084 | 1084 | 1084 |
| N patrymau coll | 117 | 149 | 149 | 115 |
| Graddau o ryddid | 309 | 582 | 579 | 422 |
| CFI cadarn | **0.938** | 0.837 | 0.839 | 0.869 |
| TLI cadarn | **0.929** | 0.823 | 0.824 | 0.856 |
| RMSEA | 0.053 | 0.057 | 0.056 | **0.051** |
| SRMR | **0.060** | 0.119 | 0.108 | 0.074 |
| N cwestiwn heb lwytho'n arwyddocaol ar lefel P<0.001 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| N atchweliad wedi'i ffitio | 12 | 9 | 12 | 8 |
| N atchweliad ddim yn arwyddocaol ar lefel P<0.001 | 1 | 0 | 0 | 1 |


Yn nodedig, model 1 hefyd oedd y lleiaf cymhleth, gyda'r lleiaf o baramedrau, a allai fod yn ffactor a oedd i'w gyfrif am y ffaith ei fod yn ffit gwell. Er nad ydym yn trafod manylion y tri model arall yn llawn, rydym yn cyflwyno eu diagramau llwybr gyda'r cyfernodau cysylltiedig isod er gwybodaeth.

**Ffigur 3. Model hafaliad strwythurol rhieni 2 a chyfernodau safonedig**




N = 1084


**Ffigur 4. Model hafaliad strwythurol rhieni 3 a chyfernodau safonedig**




N = 1084

Yn nodedig, mae modelau 2 a 3 yn debyg iawn, a'r unig wahaniaeth yw cysylltiad uniongyrchol ychwanegol rhwng "cyfle i gydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm" a "chanfyddiadau rhieni o gynnydd tuag at y pedwar diben". Er gwaethaf y cymhlethdod cynyddol, mae model 3 yn ffitio'n debyg iawn i fodel 2. Yn fras, oherwydd y cysylltiad ychwanegol wedi'i fodelu ym model 3, mae'r gwahaniaeth yn y cyfernodau a ddangosir yn y ffigurau isod, sef y cysylltiad uniongyrchol rhwng **ymddiriedaeth rhieni yn yr ysgol** a **chanfyddiadau rhieni o gynnydd tuag at ddyheadau'r cwricwlwm** yn lleihau o ran cryfder.

**Ffigur 5. Model hafaliad strwythurol rhieni 4 a chyfernodau safonedig**




Cyfernodau coch = ddim yn ystadegol arwyddocaol ar y lefel p<0.05

N = 1084

O ystyried bod y tri model hyn yn ychwanegu **bodlonrwydd rhieni gyda gwybodaeth** at y model, ac ym mhob un o'r tri achos roedd ganddo gyfernodau cymharol isel o ran darogan ffactorau eraill, gellid dadlau mai dyma un o'r ffactorau sy'n effeithio leiaf ar y cysylltiadau y mae'r SEMs yn ceisio eu modelu. Efallai nad yw hyn yn syndod; mae'r cysylltiadau uniongyrchol o **gyfle i rieni gydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm** i **hyrwyddo galluedd**

**rhieni**, yna **ymddiriedaeth rhieni yn yr ysgol** ym model 1 yn hynod o gryf, felly gallai fod yn wir bod **bodlonrwydd rhieni gyda gwybodaeth** wedi'i gofnodi'n dda eisoes gan y gadwyn hon o gysylltiadau.

Fel arall, gwahaniaeth allweddol arall sydd gan fodel 1 o'i gymharu â'r tri model hyn yw bod cysylltiad uniongyrchol rhwng **hyrwyddo galluedd rhieni** a **chanfyddiadau rhieni o gynnydd tuag at ddyheadau'r cwricwlwm**, yn hytrach na dim ond cysylltiad anuniongyrchol. Mae hwn yn gysylltiad eithaf cryf ym model 1, felly mae'r ffaith nad yw'n bresennol hefyd yn ffactor posibl o ran pam nad yw'r modelau hyn yn ffitio cystal.

## Atodiad E: Tablau atodol ar gyfer y modelau SEM a ddewiswyd

Gweler y ddogfen ar wahân er mwyn gweld y tablau canlynol.

**Tabl 4. Amcangyfrifon model o'r model SEM rhieni a ddewiswyd (model 1)**
**Tabl 10. Matrics cydamrywiad o'r model SEM rhieni a ddewiswyd (model 1): rhan 1**
**Tabl 11. Matrics cydamrywiad o'r model SEM rhieni a ddewiswyd (model 1): rhan 2**
**Tabl 12. Amcangyfrifon model o fodel SEM dysgwyr**
**Tabl 13. Matrics cydamrywiad o'r model SEM dysgwr**